CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
Dyddiad y Cyfarfod:	**9 Medi 2021**
Teitl:	**Adroddiad Archwilio Mewnol –Ystadau**
Pwrpas yr adroddiad:	**Darparu esboniad i'r Aelodau ynglŷn â'r broblem gyfathrebu gododd ym Mhwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 3/6/21**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Ray Quant MBE, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfnidiaeth, a Gwasanaethau Democrataidd**

Yn dilyn trafodaeth yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin ynglŷn â'r diffyg cyfathrebu rhwng Archwilio Cymru a Gwasanaeth Ystadau'r Cyngor, cytunwyd:

12 (ii) y byddai'r gwasanaeth archwilio mewnol yn gofyn am esboniad ynglŷn â'r broblem gyfathrebu a gododd yn y gwasanaeth ystadau, a arweiniodd at yr oedi wrth ddarparu gwybodaeth i Archwilio Cymru.

Trefnodd y Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol gyfarfod â'r Rheolwr Corfforaethol - Twf a Menter ar 29/7/21 i drafod y mater hwn.

Yn y cyfarfod, cadarnhaodd y Rheolwr Corfforaethol - Twf a Menter fod y gwaith angenrheidiol wedi'i wneud yn ôl yr angen wrth baratoi ar gyfer y cyfrifon penodedig. Fodd bynnag, roedd gwiriadau mewnol y gwasanaeth Ystadau ei hun wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl. Roedd hyn, ynghyd â phwysau gwaith eraill, wedi achosi oedi wrth gyfathrebu ag Archwilio Cymru. Wrth edrych yn ôl, mae'r Rheolwr Corfforaethol - Twf a Menter yn cydnabod y dylai Archwilio Cymru fod wedi cael gwybod am hyn ar y pryd ac mae'n cymryd cyfrifoldeb llawn am yr amryfusedd.

I sicrhau bod y cyfathrebu'n foddhaol o hyn ymlaen, mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Economi ac Adfywio a'r Rheolwr Corfforaethol - Twf a Menter yn cyfarfod bob pythefnos â'r Rheolwr Archwilio a'r Arweinydd Archwilio o dîm Archwilio Ariannol lleol Archwilio Cymru. Cytuna'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Economi ac Adfywio fod y trefniant hwn yn gweithio'n dda hyd yma. Nid oes unrhyw anawsterau o bwys wedi codi ers hynny ac mae adroddiad drafft ar y prisiadau presennol wedi'i rannu eisoes â Swyddogion Archwilio Cymru er mwyn cael eu hadborth.

Bydd y fforwm hwn yn parhau i gyfarfod ar y cyd naill ai bob pythefnos neu bob mis, yn dibynnu ar Archwilio Cymru, i sicrhau yr ymdrinnir ar unwaith ag unrhyw faterion sy'n codi ac i osgoi rhagor o oedi wrth gyfathrebu.

I gloi, roedd y Rheolwr Archwilio o Archwilio Cymru wedi cadarnhau'r trefniadau uchod drwy e-bost ar 30/7/21 a chadarnhaodd fod y cyfathrebu yn well ar hyn o bryd.

Argymhelliad:	**Nodi'r uchod**
Rheswm dros y penderfyniad:	**Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn fodlon bod y gwasanaeth Ystadau wedi ymateb yn briodol i'r broblem gyfathrebu a fu a bod proses dderbyniadwy ar waith i'r dyfodol.**
Atodiadau:	-
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Elin Prysor Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro
Swyddog Adrodd:	Amanda Roberts Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol
Dyddiad:	30 Gorffennaf 2021